Athravaeth Gristnogavl,

Le cair uedi cynnuys yn grynno'r hol brifbynciau syd i gyfaruydo dyn ar y phord i baraduys.

Meun carchar daear, od oes



anghbriid, ynghuyryl y geingroes

I'r enaid mae guir einioes,

Mod didrist gan Grist ai groes.

Natto duu i mi ymogonedu ynnim; onid ynghroes yn hargluyd ni Iesu Grist. Gal.6.

O ſlaen y traethiad e gair y pynciau hynottaf meụn tafulan veḍi noḍi pob vn ar i ben i hun.

Yn niueḍ y lyfr e oſſodụyd y beiau a ſyrthioḍ y guṇeuthur ụrth brintio.

A ḷauer o eiriau, a fu raid i harfer er nad oeḍynt arferedig trụy Gymru.

Byrfoḍau. ſ. moḍ i ſcriſenu geiriau yn fyrr heb i guṇeuthur yn ḷaụnlythr.

.ſ. dros yſef yụ.	Arg. N. dros argluyḍ ni
ã: dros am, ne, an.	Arg. dros arglụyḍes
	M. dros maſtr
ẽ: dros em, ne, en.	æ dros ae
õ: dros om, ne, on.	œ dros oe
	S. dros ſant
ĩ: dros im, ne, in.	

Gruphyḍ fab Rhobert yn annerch yr hyparch brelad, ai ḍibal gynheiliad M. Morys Clynoc: ag yn erchi iḍo gan ḍuụ, gynnyḍ, ras a de- ḍụḍụch enaid, a chorph.

*V*EDI *ymy ḍarlaĩ ych ḷyfr, o‘r athra-
uaeth Griſtnogauḷ, a chanfod ynḍo
megis egin pob pụnc hyles i griſtiō ụr-
tho, i gadụ‘r enaid, a ḍarfu i ḍuụ i ụn
euthur ar i lū, ai ḍelụ: ag a rybrynnoḍ
Criſt ai ụerthfaụr ụaed: e laụenychoḍ
fynghalon ụrth ụeled tryſſor mor ụrth
faụr yn yr iaith gymraeg: a maint ſyḍ
o eiſsie cyfrụiḍid ar phorḍ Griſt, yn gy
phredinol ymyſc guỵr yn gụlad: a‘r plāt
yn crio am fara (mal y mae‘r prophụ-
yd yn ḷefain) heb fod neb, ai tyrr iḍynt
ag ai rhyḍ heb i ụenụyno. Am hynnỵ*

a ij gen

gen darfod i chui gasclu yn grynno, a dosparth yn drefnus, ag yn eglur cymaint o flodeuau, a phynciau iachusaul, i hyphordi un a chuennychai uybod suyd, a rhann Cristion perpheithgred, i dyscu beth a ennil nef, beth a dafl dyn i uphern, beth a rhynga bod i duu, a pheth a una ido sorri: brynti pechod, odidougruyd rhinued: ni elais ar fynghalon na pharun i brintio: fal y galo erail syd ag eiſsie y cyfryu ymborth ysprydol arnynt, fod yn gyfrānol o'r uled a darfu ichui i harluy. Gobeithio pan delo i duylau y crefydgar gymru, y guna lauer o les idynt, truy i huylio i baraduys, ai troi o phord uphernaul. E fyd toſtur fynghalō pā fedyliuyf faint syd o blant truy dir cymru, odidaug i athrylith, a darpar guyr arderchaug,

yn

yn methu,ag yn cymryd ḷuybr ãnuyia-
ụl eiſiau cael oi mebyd i hyphoḍi meụn
ḍyſc,ai meithrĩ meụn moeſſaụl gãpau.
Yr achos fuyaf o hynn yụ diphig ḷyfrau
a draethant o'r cyphelib yſtyr.ond yro-
ụron e ḍarfu i chụi meụn ychydig o ḍo
lẽnau roḍi cymorth , a help iḍynt rhag
yr eißiau hynn.Canys yn ych ḷyfr chụi
yma nhụy a gaant oi ḍyſgu yn haụd ,
meụn ychydig o amſer,a thrụy ychydig
help,a ḷai o goſt, y pethau ſyḍ angẽrhei
diol iụ gụybod,i hen ag ifanc . Canys
pụy yụ hụnnụ a eiḷ ḍoedyd i fod yn gri
ſtion,oni ụyr pa foḍ y mae credu yngrh
iſt,beth ſyḍ oi obeithio gentho, a pheth
a orchmynoḍ ef i gaḍụ; beth a ụahar-
ḍoḍ i ụneuthur,beth a ennil obrụy , a
pheth a hauda goſp ? fely pan yſtyrio'r
cymru ſyḍ yn caru i heneidiau,mor an

hepcor

hepcor ydyw'r rhain, ag mor hawd i dyscu wrth darlai y traethiad yma: nhwy a' madawant ai diogswrth eistedach, ai bustlawl serthed, ag ai smala gyfedach (onid ydynt wedi bodi mewn bryn ti pechod) ag a' mro dāt i dyscu pethau sprydol, budfawr i'r enaid. A hynn nis caant mewn mann aral yn y byd mor fyrr, mor drefnus, mor eglur oi dealt ag yn y lyfr yma i chwi. cāys amhoßibl oed gynnwys mewn lai o erriau, a dosparth yn oleuach, a chyfleu yn wedeidiach gynnifer byncia, a chyn dyfned i'styriath; fal y galo y plant a'r gwraged i dealt, gwyn i byd trwy gymru, pe parēt ymhob eglwys wrth aros y gwasanaeth, ne ar osteg ypheren, gartref ymysc tylwyth y ty i difyrru'r amser ag ymhob cynileidfa i didanu'r bobl,

dar-

darlain hunn ne'r cyfryu ymadrodion a gadel i phord henchuedlau coegion, a chouydau guenheuthus, celudog. Ond ar hydr y rhyd yr yspryd glan ras idynt huy i gymryd dysc, megis y roes i chui oi scrifennu attyn; mi danfonaf yrhain yn i mysc, dan erfyn ar duu ym hob guedi a uneluyf ar urtheithio hono i calonnau nhuy i derbyn adysc, a rhoi nerth i chuithau i scrifennu chuaneg er les i'r Gristnogion, a gogoniant i duu.

O dref, Fylen nosuyl S. Nicolas.

Y PYNCIAV HYNOTTAF.

RHAGLITH. S. ADROD i douys vn ag megis oi lithio i'r athrauaeth Gristnogaul.

VEdi'r plant dyfod i'r vnle, yn gyntaf ymgroessed y meistr a phob vn o'r lail hefyd: ag yna decreued dau o'r bechgin ganu hynn yma syd yn canlyn.

MAe'n rhuymedig iaun,
bob Cristion phydlaun,
berchi'n grefydlaun
y graulaun grog.
Am i Crist Iesu,
arni yn prynnu,
a'n guared yn gu,
o gad euog.
A'n tynnu truy gred,
o faur gaethiued,

Pechod oer dynged
du angau log.
A'n hachub bob dyn,
o lau'r drug elyn,
Syd i'n cas erlyn,
oerlais lidiog.
Vrthynn pob nifer,
a dylai 'marfer,
bob guaith ag amſer
ymſuyn ennuog.
Roi aruyd dirfaul,
y grog fendigaul,
tan doedyd bob ſaul
Sail guaith puylog:
yn enu duu y tad,
a'r vnig fab mad,
a'r yſpryd glan rad
rod odidog.
amen.
Ieſu, a mair

Chryſoſtomus Homel. 55. in Matth.

Dygụn le cerḍom megis coron yn lauẽ yn calonnau groes Criſt. Canys honno ſyḍ yn cyflouni pob peth ar y ſyḍ gynhu rthuyaul i'n caduedigaeth ni: oblygid pan ail enir ni, mae croes yr argluyḍ yn breſſenol. Pan borthir ni a'r ſanteidiaf fuyd pan fom meụn graḍ i gyſſegru ymhob ḷe ag amſer efyḍ hynn o ar ụyd budygoliæth gida ni. Am hynny ni a ḍylem yn ḍyfal, ag yn yſtig oſſod y groes yn y dirgel gelyḍ o feụn y ty, ar y paruydyḍ, ag yn y pheneſtri, ar yn talcen, ag yn yn calō. Canys hụn ſyḍ aruyd o'n catuedigaeth ni, o'n cyphredinol ryḍid o ụarderougruyḍ yn argluyḍ ni.

Ychydig ynol hynny.

Rhaid yụ guneuthur ḷun y groes nid

yn vnig a'r y corph, eithr trụy phyḍ gadarn hefyd yn y galon. Canys os prin tid di y groes yn y moḍ hụnnụ, ni lefys yrun o'r cythreulig yſprydion yngyfar fod a thi, pan ụelo'r gụaeụ a roes iḍo'r archoḷ angheuaụl. s. y groes.

yr vn; Homel. de cruce dominica.

Y groes ſyḍ obaith i'r Criſtnoniog; adgyfodiad i'r meiru, toụyſſyḍ i'r deiḷion, phon i'r cloph, cyſſur i'r tylaụḍ, genfa i'r cyfoethog, dyſtroụiaeth i'r trahaus, penyd i'r anfuchedoḷ, gorfoleḍ yn erbyn diaụḷ, cynheiliæth i'r anghenus, tad i'r ymḍiḍad, dyphynnyḍ i'r ụedụ, cynghoryḍ ir cyſion, ſyluain i'r eglụys, gụrthladiad i'r gauḍuụiau, nerth i'r gụeiniaid, medig i'r cleiſion, bara i'r neụynog, phynnon i'r ſychedig.

Athrauạeth Griſtnogaụl.

Ynghylch henụ Criſtion, a'r nod ſyd i adnabod Criſtion ụrtho, a henụ Criſt, ai athrauạeth Griſtnogaụl.

A. A *ydychụi yn Griſtion? D. ụyf drụy rad yn hargluyḍ ni Ieſu Griſt. A. Pabã y doeduch truy rad Ieſu Chriſt? D. am na chefais fod yn Griſtiõ o heruyd heu ḍu onofi hynny o urḍas, nã tad chụa-ith, nam mam, na chreadur yn y byd: eithr truy ḍaioni duụ a heuḍiant Criſt A. beth ydyụ Criſtiõ? D. diſcibl i Griſt. s. vn ſyd ụedi fedydio, ag yn prypheſſu i gyfraith ef. prypheſſu cyfraith Criſt yu aḍe fod yn i guybod, ag aḍaụ i cha-dụ. A. Para oruchafiaeth, ne deilyng-daụd a caiph dyn ụrth i ụneuthur yn Griſtion? D. ef ai gụnair yn fab y ben-*

dith,

dith; yn anssodfab duu,ag yn etifedi deyrnas nef. A. beth am hunnu nid yd yu yn Gristion? D mae ef yn trigo yn fab y meldith yn gaethuas i diaul ued i'difedu o'tifidiath nef. A. beth ydyu Crist? D. Guir duu, a guir dyn. A. beth y mae'r gair, Crist, yn i aruydhau yn y gymraeg? D. einniaug. A. Paham? D. arfer oed einniau brenhinoed urth i co rōi,ag ennaint corphorol,ag fel y ypheiriaid, a phrophuydi urth i hurdau ag am fod Crist yn frenin yuch bē pob brenin, yn ypheiriad yuch hen pob ypheiriad, yn brophuyd yuch ben hol brophuydi, ef ai einniuyd ef, ag ennaint yuch bēn pob ennaint. s. a chyflounruyd gras yr yspryd glan, am hyn y geluir ef Christus, ne vnctus. s. yr einniaug: o heruyd darfod i einniau ef ag ennaint mor o-

didog,

didog, ag meụn grad berpheithiach no neb aral. A. beth y mae y gair, Iesu, yn i aruydhau? D. Ceiduad am ido yn cadu ni, truy yn prynnu ai uyrthfaur uaed, a dysgu ynny luybr y gaduedigaeth s y phord i baraduys urth rodi athrauaeth Gristnogaul in hyphordi ni A. Pa beth yu'r athrauaeth Gristnogaul. D. yr adysc a roes Crist yn hargluyd ni ynny ai ueithredoed yn gyntaf, ag vedi hynny ai eiriau: athrauaeth Gristnogaul hefyd yu honno a darfu i'r gatholig fam egluys Rufain i dysgu ynny.

Anghoriad.

A. urthynny fy meibion ystyriuch mor rhuymedig ydych i dilyn yn hargluyd ni Iesu Grist, ar ych gueithredoed, gan gymryd onoch ych benu gãtho, a rhodi onofo ychui gymaint o ras.

ynghylch

Ynghlch arẉyḍ y grog lan.

A. Paryẉ nod, ne arẉyḍ ſyḍ i adnabod Criſtion ẉrtho? D. Arẉyḍ y grog lã. A. Paham? D. am i Ieſu Griſt yn prynnu ni arni. A Pafoḍ y mae gẉneuthur yr arẉyḍ yma? D. yn gyntaf rhoḍer y ḷaẉ ar y penn, ag ar y corph, ẉedi hynny ar yr yſcẉyḍ aſſẉ a'r ḍehau, tan ḍoedyd: yn enw'r tad, a'r mab, a'r yſpryd glan. amen. Ieſu. A. Paham y gẉnair hi yn y moḍ yma? D. i arẉydhau dau o faẉr ḍirgeleḍiõ dwẉ, vn o'r ſanteiḍiaf drin daẉd, araḷ ynghylch ymgnoẉdoliæth yn harglwyḍ ni Ieſu Griſt. A. Pafoḍ? D. ẉrth henẉi'r tad ar y penn, yr arẉydhe ir i fod el yn ḍechreuad i'r perſonau eraiḷ: ẉrth hennẉi'r mab ar y corph yr yſpyſsir i ḍyfod ef o'r tad; Pan gofbeir yr yſpryd glan, o'r naiḷ yſcẉyḍ i'r ḷaḷ, y deueḷ-

deueltir i fod ef yn dyfod o'r tad a'r mab A.P aham y gunair hynn yn groes? D. i aruydhau y dirgeled ar al.s. dar fod i fab duu uedi uneuthur yn dyn yn prinnu ni ar groes. Ag fely y gelir doe dyd fod aruyd y grog a unaun ni urth ymgroeßi, megis crynodeb o'n phyd ni: A.P abryd y dylem arfer yr aruyd yma? D. Pan dechreuom uaith yn y byd, a phan fythom meun cyfyngdid ag angen: yn anuedig urth godi o'n guely, urth fyned alan o'r ty, ne urth fynd i'r egluys, ne i fuytta ne i gyscu. A.P ahā cyn fynyched? D. er muyn cael gan duu ymhob le ag amser yn cadu rhag yn gelynion, hefyd i drefnu ag unioni pob gueithred a unelom, yn anrhyded a gogoniant i duu.

A drybeḍ o arfer, a henafiaeth aruyḍ y groc fendiged.

Yr ydys yn arfer aruyḍ y groc lan o dechreuad y gyssefiniaụl eglụys, ag o ãser yr abostolion hyd yroụron: mal y mae'n eglur ụrth lyfr Tertullianus, de corona militis. yr vn peth a dystlaetha, S. Augụs. Serm. de tẽpore 181. in Euãgelium Ioan. tract. 118. in psal. 30. cõcione 2. in psal. 141. Et de Sanctis sermone 19. S. Chrysost. Homel. 13. in epistolã ad Philip. S. Basilius, yn i lyfr de spiritu Sancto cap. 27. hefyd ụrth fedyḍio, a rhoi'r bedyḍ escob, annoger a chynghorer nhụy pan vnelont aruyḍ y grog, i ụneuthur ef, yn hybarchus, dã ystyriaụ yn dụsn y dirgelion a ḍoedassom, a gụilio rhag gụneuthur hynn heb fedụl am ḍim mal y ma'er arfer fyny chaf ymysg lauer.

Ynghylch y diued a'r pennod syd i Gristion a'r pethau angenrheidiaul ido i gyrheudyd i bennod.

A. mae'r diued y creaud duu dyn ido? D. i Garu, ag i uasuaethu duu yn y byd yma, achuedi oi ueled, ag oi fuynhau yn, y byd syd yn douad, a hynny a syd yn gunfyd pennaf ni A. Pessaul peth syd raid i Gristion urthynt i alu cyrrheudyd y pennod a ossodes duu ido, ag oi gadu druy i cynhorthuy. D. Peduar, phyd, gobaith, perpheith serch a gueithredoed da. A. beth yrydychui yn i gredu truy nerth y phyd? D. Cubl o hynny mae'r santaid fam egluys Rufain yn i dal, ai gredu: ag yn bennaf hynny syd yn y gredo. A. doued y gredo D.

1 *Credo in Deum patrem omnipotentem, creatorem cœli et terræ.*

2 *Et in Iesum Christum filiũ eius vnicum, dominum nostrum.*

3 *Qui conceptus est de spiritu Sancto, Natus ex Maria virgine.*

4 *Passus sub Pontio Pilato, Crucifixus, mortuus, & sepultus.*

5 *Descendit ad inferos, Tertia die resurrexit a mortuis.*

6 *Ascendit ad cœlos, sedet ad dexrã dei patris omnipotentis.*

7 *Inde venturus est Iudicare viuos & mortuos.*

8 *Credo in spiritum Sanctum.*

9 *Sanctam ecclesiam Catholicam: Sanctorum cõmunionem*

10 *Remißionem peceatorum*

11 *Carnis resurrectionem*

Vitam

12 *Vitam æternam. Amen.*

A doued hi yn Gymraeg. D.

1 *Ruy fi'n credu yn Nuu'r tad, ho*
llalluaul, creaudr nef a daear.

2 *Ag yn Iesu Grist i vnig fab ef yn*
hargluyd ni.

3 *Yr hun a enniluyd o'r ysbryd glā;*
a anuyd o fair foruyn

4 *A diodefod dan Bontius Pilatus*
a groeshoeliuyd, a fu faru ag a
gladuyd

5 *A discynod i vphern, y trydyd dyd*
a godod a faru i fyu

6 *A'scynod i'r nefod, sy'n eisted ar*
deheulau duu'r tad holaluaul.

7 *Odiyna a dau i farnu'r byu a'r*
meiru.

8 *Ruy fi'n credu yn yr ysbryd glan.*

9 *Yr egluys lan Gatholig, cyphredi-*
nruyd y Saint.

10 *Colyngdod pechodau.*

11 *Adgyfodiad y cnaud*

12 *Y bouyd tragudol. Amen.*

A. Beth a doedasommi ynaur? D. y Gredo. A. Puy a unaeth y Gredo? D. y deudeg Abostol, pan oeden ar fyned i bregethu'r efengil truyr holl fyd. A Pa ham y gunaethont huy hi? D I'n dyscu a'n hyphordi ni yn y phyd. A. Beth ydis yn i gynhuyso yn y Gredo? D. deudeg punc. s. deudeg rhan benaf o'r phyd. A. At buy mae'n perthyn y pynciau yma? D. y cyntaf at y tad: a'r chuech punc, sy'n canlyn, at y mab; a'r pum diuaethaf at yr ysbryd glan.

Dosparth, ne ysponiad y Gredo.

1 *A ymhuy ruy ti yn credu? D. Ruy fi'n credu yn Duu, yr hun yu'r santeidiaf*

diaf drindod. A. beth Vyti yn i ḍealt vrth ḍoedyd y ſanteiḍiaf drindod? D. y tad, a'r mab, a'r ysbryd glan, tri pherſon ag vn duụ yn vnig A. a ydiụ'r tad yn duụ? D. ydiụ. A, a ydiụ'r mab yn ḍuụ? D. ydiụ A. a ydiụ'r ysbryd glan yn ḍuụ? D. ydiụ A. a oes tri duụ? D. nag oes, er i bod yn ụahaned ig berſonau, nid oes er hyny ond vn duụ A. Paham y geluir ef, duụ? D. am i fod yn gụeled, yn arluy ag yn trefnu pob peth, megis argluyd a ḷyụodraethụr o'r cụbl A. Mae'r gyphlybiath a rouchụi ymy o'r santeidiaf drindod? D. Mae oi ụeled ynomi a creaụd duụ ar i lun a ḍelụ i hunan, un enaid yn vnig, a thri galụ. ſ. deụaḷeḍ i ḍeualt, cofeḍ i ḍal meụn cof y pethau a ḍeuheḷir, euyḷyſſeḍ, i chụennychụ y pethau a ḍeuhaḷer ag a

fedy-

fedylier i bod yn ḍa. Ag megis y mae'r enaid yn vn o ſylụeḍ, yn dri o aḷu, fel y mae'r santeiḍiaf drindod yn vn duụ, ag yn dri pherſon. A. Puy a greauḍ y nef a'r ḍaear o ḍim? D. duụ'r tad, a'r mab, a'r yſpryd glan. A. Paham y geluir ef hoḷaḷuauḷ. D. Am i fod ef yn abl, yn vnig ai euyḷyſſed ag ai aḷueḍ i hun, i ụneuthur ag i ḍaḍụneuthur pob peth. 2 A. a ụyti yn credu yn Ieſu Griſt? D. ydyụ A. Puy yụ Ieſu Griſt. D. Mab duụ'r tad yn gymaint ag yn gydraḍ ai dad o rym, doethineb, a daioni: ag ai gụnaeth i hun yn ḍyn, er ymụyn ni, yngrhoth yr ogoneḍus fair forụyn. 3 A. Pa foḍ y gụnaethbuyd hynn? D: niḍ truy ụaith dyn, eithr truy nerth a rhad yr yspryd glan tan drigoni hi yn forụyn cyn eſcor, ụrth eſcor,

ag

ag ynol escor. ag fely yn y nef nid oes gē tho mo'r fam, ar y daear nid oes gantho mo'r tad. 4 A. Paham y rhoessuyd ef ar y groes, a pham y bu ef faru ag i claduyd ef? D. o gariad i ni, i'n rhydhau alan o'n pechodau, a duylau'n gelynion: à'n bachub rhag angau tragudaul, ag vphern, ag ermuyn hynn i prynnod ef ni ai uerthfaur uaed, ar y prenn croes. A. Urth hyny roedem yn aldudion, ag ef a darfu ido yn prynu ni. D. oedem yn ueision i'n pechod nyhun, ag yn aldudiaid i diaul.

Rhybyd.

Yma gelir dangos a datglurio pechod yn tad cynta ni, a'r phruythau, a'r maur drueni syd uedi dyfod druy'r pechod hunu, ag mor faur ruymedig ydym i Grist yn prynnur.

5 A.Pa beth a ụenaeth Criſt yn arg.
N.pan ḍiſcynoḍ ef i uphern ? D. ef a
dynoḍ aḷan eneidiau'r Patrieirch a'r
tadau bendigedig, a'r eneidiau ſanta
iḍ oeḍent yn i limbo, yn aros dan ydry
ch am i doụediad ſantaiḍ ef. A.Paḍe-
lụ y codoḍ ef y trydyḍ dyḍ? D.E godoḍ
o farụ i fyụ meụn corph ag enaid go-
neḍus mal na bytho muy farụ. A. Pa-
ḍelụ dyrchafoḍ ef i'r nef, ag y mae'n
eiſteḍ ar ḍeheulaụ ḍuụr tad? 6 D. E
ḍyrchafoḍ ụedi deugaĩ nhiurnod uch
laụ pob nef, a'r hoḷ angyliõ, drụy i rym,
ai aḷu i hunan, yn ḷe mae'n trigo yn i
faụr ogoniant, megis mab duụ. 7 A.
Paḍelụ daụ ef o diyna i farnu'r byụ
a'r meirụ? D. Dyḍ y farn yr hụn a fyḍ
yn niụed y byd, ef a ḍaụ o'r nef meụn
mouroliaeth, a galu, a'r yngylion a'r ſa

int

int yn uaetio arno, i farnu'r hol dyniō, ag i roi i bobun yn ol i gueithredoed. 8 A. A uyti yn credu yn yr yſpryd glā. D. Yduyf, i fod ef yn uir duu y trydyd persō o'r ſantidiaf drindod, yr hun ſyd yn rhoi oi ras, ai rodion i'r ſanteidiol egluys Gatholig. 9 A. Pa beth yur ſanteidiol egluys Gatholig? D. yr hol gynileidfa o'r phydlon griſtnogion, ſyd yn medu, ag yn cypheſu phyd Ieſu Griſt, a phen hon yu Criſt i hunan, a'r pab i ficar ar y daear. A a'r neb nid vfydha i'r egluys, pa niued adau ido? D. y ſaul ni fyn mo'r egluys yn fam, ni chaiph ef mo duu ido yn dad. A. Beth uyti yn i dealt urth doedyd cyphredinruyd y ſaint? D. fod cubl o'rhain a'r y ſyd yn yr egluys yma, yn cael rhan ynghyd o'r aberthau, a'r ſagrafenau, ag o'r gue-

*thredoed da yr ydis yn i ụneuthur yn-
ḍi hi megis ag y mae meụn vn corph,
vn aelod yn gyfranol o rhinụeḍ a ga-
lụ'r ḷaḷ. A. Paḍelụ y geḷir rhyḍhau pe-
chodau?* 10 *D. E ryḍheir pechodau
drụy ryglyḍiad dioḍefaint yn harg. N.
Iesu Grist a'r sagrafennau bendige-
dig syḍ gyfryngau i hynny, trụy ụneu-
thur o honomi y pethau ydym rụyme-
dig. A. A'r neb ni aḷ gymeryd y sacra-
fenau? D. Digon iḍo i eḍuned, ai eụlys
oi cymeryd, dā ụneuthur cimaint ag a
ḷo: a hynny mae ef yn rhụymedig oi ụn
euthur.* 11 *A. Paḍelụ y byḍ cyfodiad
y cnaụd. D. Dyḍ y farn y cyfyd pob ma
rụ yn i gorph ai enaid, y rhai da yn ogo
nedus, ag yn deg, a'r hai drụg yn ụrth-
ụyneb i rhain. s. yn hagar, ag yn druain
Yma geḷir espyssu a dangos gogoniant*

yr

yr adgyfodiad,a'r cyrph gogonedus, a chynyſgeḍau'r eneidiau.&cet. 12 A. Pa beth yụ'r bouyd tragụḍol? D. Gogoniant paraduys .ſ. gụeled a mụynhau duụ i gael yn dragụḍol bob daioni; a heb ḍim drug, i'r ḷe hũn yr aiph y rhai da, a'rhai drụg ant i dan a phoenau tragụḍol yn uphern. A. a phụy ſy'n myned i boenau'r purdan? D. Eneidiau'r heini a fuont farụ yngras duụ, ag ni ḍarfu iḍynt ụneuthur cubl iaụn am i pechodau: a chụedi iḍynt ụneuthụr i penyd deledus nhụy a gan fyned i baraduys. A. beth yụ doedyd. Amen. D. fely i bo ụrth hyny fy feibion ymorolụch yn ḍyfal am ụaſnaethu yn har. N. Ieſu Griſt, fal y byḍoch ymyſc y da ai ḍetholion ef, ag nad eloch ḍim cida'r drụg i uphern.

O'r ail beth anghenrheidiaul i Gristiō
se'f yu hyny, o obaith.

A.beth ydychuy yn i dysscuyl gan duu, druy obaith, syd gennych arno? D. y bouyd, a'r einioes dragudol. ag i ennil bonn, gras duu syd bennaf, ynol hun mae'r rhyglydiannau, syd truy nerth yr vnrhyu ras o'n rhan ni yn dyfod, yn help faur A.beth syd raid urtho i ynil y pethau ydym yn i gobaith? D. ymysc erail Guedi syd anhepcor. A.pa uedi mæ'r egluys yn i dyscu i ni? D. y pader Aue maria, Salue regina, ag erail A. dyued y pader. D. Pater noster, qui es in cœlis, sanctificetur nomen tuum: Adueniat regnum tuum, Fiat voluntas tua, sicut in cœlo & in terra. Panē nostrum quotidianum da nobis hodie. Et dimitte nobis debita nostra sicut et nos

dimit-

dimittimus debitoribus noſtris, Et ne nos inducas in tentationem ſed libera nos a malo, Amen. A. pa un yu'r gofyniad cyntaf? D hun yu ef, yn tad ni yr hun uyt yn y nefoed: ſanteidier dy henu di. yr ail arch yu; delid dy deyrnas di, y 3 arch yu, guneler, dy'ulys di, megis yn y nef, hefyd a'r y daear. y peduared, Dod i ni hediu yn bara beunydol. y pumed dyſyfiad yu, a made i ni yn dyledion, megis ag yr ydymine yn made i'n deleduyr, y chuechedd erfynniad yu, ag na dug nyni i brofedigeth. y ſeithfed arch yu, ōd guared ni rhag drug. AMĒ.

Ynghylch y uedi o'r pader.

A. pabeth a darfu i ni doedyd y naur? D. y pader. A. puy a unaeth y pader? D. *yn harg. N. Ieſu Griſt, yr hun ai doedod ai enau i hunan. A Paham y gunaeth*

naeth ef y pader. D. i ḍyſcu i ni ụeḍio? A. ụrth bụy yr ydis yn doedyd yn y ụeḍi honn? D. ụrth yr arglụyḍ ḍuụ. A. a oes gụeḍi araḷ ụeḷ na hi? D. nag oes, hon ſyḍ odidaụg ag yn rhagori, yn gyntaf o achos gụneuthur o GRIſt. *yn barg.* N. *y hi ai thraethu oi ḍiſcibliō; a hefyd am yn bod ni yn gofyn yn hon y pethau penaf a ḍylem i gofyn.*

Ysboniad y pader.

A. beth ydis yn i ụneuthur yn y rhan gyntaf yma; pater noſter qui es in cœlis? D. yrydis yn dyrchafu'r meḍụl at ḍuụ, drụy oſtyngeiḍrụyḍ a gobaith ar fod yn abl i ofyn. A. *Paham y'rydymi yn galụ duụ yn dad.* D. *am ụrth i alụ ef yn dad yrydymi yn galụ in cof i faụr gariad ef i ni, ag feḷy yrydymi yn dymuno arno drụy faụr goel, a mụy gobaith. A.*

Paham

Paham y doedun, yn tad ni, ag nid, fy nhad? D. am i fod ef yn dad i baub, a ninau i gyd yn frodyr, ag fely ni a dylem garu i gilydd megis brodyr, a meibion i un tad syd mor daionus. A. ple mae duu? D. y mae ef yn y nef, ag ar y daear, ag y mhob le. A. urth hyny pahã yrydymi yn dœdyd, yr hun uyt yn y nefoed? D. o achos mae yna y guelir uyneb duu, yn le y mae yn gulad ni, ag yna y mae ef yn dangos yn fuy i alu ai fauroleth.

Yma gelir doedyd ynghylch cariad y nef, a gogoniant nefaul, a distyrieth pathau daearaul.

A. pa beth ydym yn i ofyn yn y saith syn canlyn? D. yn gyntaf yr ydym yn erchi urduniant, a gogoniant duu ynol hynny y dedudduch y gunaethbuyd ni er i

 fu

fuyn, yn y trydyd le; y pethau pe͂af ſyd in cynhorthuy, oi gyrheudyd ef, ai fedianu. A. ymha un y'r erchir gogoniãt duu? D. yn y cyntaf, urth doedyd ſanteidier dy henu di. A. ag am yn deduduch ni? D. yn yr ail ſy'n doedyd: delid dy deyrnas di. ſ. ido ef deyrnaſu arnomi yma druy ras, a chuedi druy ogoniant. A. Pryd na thernaſa duu arnom, puy a deyrnaſa? D. yn gelynion ni. ſ. y byd, ycnaud a'r cythrel. A. ar pethau anghe͂rhidiol erail ymhle, yr ydis yn i gofyn? D. yn y pump arch erail. A. beth fely ydym yn i ofyn yn i dryded arch ſy'n canlyn? D. ar uneuthur honomi euiys duu, yma ar y daear, megis ag y mae'r angylion a'r guynfydedig yn guneuthur yn y nef A. yn y beduared? D. ar roi i ni fara, a chynnheiliaeth corphoraul a'r bara ys

brydaul

brydaul yr hun yu'r santeidiaf sacrafen, ai ras ef cid ag erail oi rodion. A. yn y bymed? D. ar fade hono ef i ni yn pechodau, an cā uedau megis yr ydym minnau yn made i erail; a guneuthur fely o duu i ni fal i gunelominau idynhuy.

Yma y gelir guneuthur esòrtiad i fade camau.

A. yn y chueched? D. ar na odefo i ni syrthio meun profedigaethau, ōd rhoi i ni gynhorthuy oi gorchfygu ag i gael y maes arnynt, ag i ocbelyd phechu. A. yn y seithfed? D. ar yn rhydhau, a'n achub ni rhag pob drug. s. i'r enaid, a'r corph, a rhag y cythrel yn gelyn ni. A. pa un yu'r drug muyaf y mysc pob drug? D. pechod. A. puy un syd uaethaf a bryntaf, pechod yntau cythrel? D. gua-

thaf o lauer yur pechod, o heruyd bod y cythrel uedi i uneuthur mor frunt druy'r pochod yn unic.

Anghoriad.

Yma gelir doedyd fal yr oed y cythrel druy i naturieth yn deg &c. Ag am hyny os nyni a'mgadun rhag pechod, ni a fydun deg hefyd yn gyphelib i'r yngylion &c ag ynghylch brynti a budredi pechod &c. A. Amen, fely bo. yr ydym yn gobaith yn nuu ar ganhiadu honof i ni y cubl druy gyfryngiad i fab ef, yr hun a dyscod i ni'r uedi yma.

O'r aue Maria.

Aue Maria gratia plena dominus tecum, benedicta tu in mulieribus & benedictus fructus vētris tui Iesus. Sancta maria mater dei ora pro nobis peccatoribus nunc & in hora mortis nostræ. Amen.

Henphych ụel fair gyflaụn o ras, mae'r argluyḍ gidaethdi: bendigedig ụyti ymysc y merched, a bengidedig yụ phruyth dy grothdi Iesu. O Santeiḍiol fair, mam duụ gụeḍia drosom bechaduriaid yrouron, ag yn aụr angau. Amen.

A. beth yụ hynn a ḍoedasoni y naur? D. yr aue Maria. A. PUY *a ụnaeth yr aue Maria. D. yr angel Gabriel pan ḍoeth i gyfarch yr argluyḍes fair, ag e fụruyd rhai o eiriau Elisabeth santes, at gyfarchiad yr angel; a'r egluys hefyd a ḍodes darn at hynny. A. ụrth buy yr ydis yn doedyd yn yr aue Maria? D. ụrth yr argluyḍes fair? A. Puy yu'r arglụyḍes fair? D. y hi yụ mam duụ moruyn gyflaụn o ras, ag o bob rhinụeḍ ḍa brenhines nef, a daear, a'n canlaụni. A. Ple mae'r arg: fair? D. yn y nef y*

mae

mae hi. A. a phuy yu hono sy'n yr egluys D. delu i honno syd yn y nef, i beri i ni i chophau hi, ag obligyd i bod yn delu idi hi, yr ydymi yn guneuthur parch ag anrhyded idi, er moliant ag a'rduniant idi hi, syd yn y nef. A. Pa y mae cimaint o delue i'r arg: fair, a oes aml arglуydes fair? D. nag oes ond un yn unic yr hon syd yn y nef. A. Paham y geluir hi yn Rhufain yn rhyu egluys, ma ir o'r drugared, meun egluys aral, ma ir o'r gyfared, yn rhyu le aral, yr arglуydes fair o'r didanuch, ag fely meun amrhyu leoed amryu henuau. D. ef ai geluir hi, a chimaint o henuau, am aml ag amrafel daioni y mae hi yn i uneuthur meun amryu leoed, megis mam duu, a mam y drigared, ag am i bod hi yn galu cimaint cida duu. A.

beth

*beth ydis yn i ḍoedyd yn yr aue MARIA?
D. yr ydymi yn i chyfarch hi, ag yn i
moli hi, dan yn gorchymyn nyhunan
iḍi hi.*

Esortiad.

*Y drychuch feibion, ar fod honoch yn
faur ych goglyd ar yr argluyḍes fair
foruyn o heruyḍ lauer o achosion.*

Salue regina.

*Salue regina mater misericordiæ, vi-
ta, dulcedo, & spes nostra, salue. Ad te
clamamus exules filij Eue. Ad te suspi
ramus gementes & flentes in hac la-
chrimarum valle. Eya ergo aduocata
nostra, illos tuos misericordes oculos,
ad nos conuerte. Et Iesum benedictũ
fructum vẽtris tui, nobis post hoc exi-
lium, ostende; o clemens, o pia, o dulcis
virgo Maria. Ora pro nobis sancta*

dei

dei genitrix, vt digni efficiamur pro-missionibus Christi. Amen.

A. beth a ḍoedasomi? D. y Salue regi-na. A. Puỵ a ḍysgoḍ y salue regina? D. y santaiḍ fam egluys. A. Urth buỵ, r y-dis yn doedyd? D. ụrth y forụyn fair i hunan. A. beth ydis yn i ḍoedyd yn hon D. molianau erail i'r forụyn fair, dā erchi hefyd i chynhorthuỵ ai help.

Ynghylch gueḍiau erail, a galụ ar y Saint.

A. heblaụ'r forụyr fair, oes gennych oglyd a defosiụn i saint erail? D. oes i baụb, ar y sẏḍ, megis annuylion duụ, a chyfrunguyr i ninau meụn gogoniant ond yn anụedig i'r angel fyngheidụad ag i'r sant syḍ o'm henu. A. ag oi creiriau huynt hefyd? D. rụysi hefyd in i hurḍunio huynt, am fod o honynt yn

deml

deml i'r yspryd glan, a bod yn ḍeledus iḍynt gael i cydunio a'r eneidiau gogo neḍus. A. Para ụeḍi ydych yn i ụneuthur attynt. D. yr heini ma'er egluys yn i ḍyscu, a'r pater noster, a'r aue Maria hefyd'er anrhydeḍ euḍynt. A. Paryụ ḍeḍfau, ne ụediau ych arferedig oi gụneuthur pan eloch i'ch gụelu? D. yn gyntaf rhoi aruyḍ y grog, a chụilio, a samio fyngyduybod ụedi hyny, doedyd y gyphes gyphredin, y pader, a'r aue Maria, y Gredo, a Salue regina, a'm defosiụnau erail. A. Pa foḍ yr ụyt yn samio dy gyduybod? D. yn gyntaf y ḍuysi yn diolch i ḍuụ am y daioni a gefais. Uedi hyny, y ḍu'yn ystyriaụ fy mhechodau, ynanụedig o'r dyḍ hụnụ, dan gymeryd ydifeirụch, a dolur am danynt, tan roi fy ḷaụn fryd ar velhau, a'm

emendio fy hunan, ag a'm cyphesu, ynol hynny y duyf yn gofyn genduu fadeuaint am danynt truy rodi gofryd cyfan ag aduned na phechuyf muy. A. beth a uyti yn i uneuthur y bore? D. y duyfi 'n diolch hefyd i duu am fynghaduy nos hono, ag am daioni erail, ag yn ophrymu ido fynghorph a'm henaid a phob peth a uneluyf yn i uasaneth bendiged ef, a hefyd y duy'n doedyd fy myfyriaul a'm lefaul dyfosiunau erail. s. am calon ag am tafod.

A'r trydyd peth anghenrhaid i Gristion? D. Cariad perphaith. A. Pa beth a dylemi 'garu a'r cariad perphaith? D. duu uuch bē pob peth, a'n cymydog megis nyni nyhunan, er muyn duu. A. Pa delu uuch ben pob peth? D. am y dylemi yn gynt ode marfoleth nai ophen-

dio ef, a hefyd ni a dylem gadu i hol or chmnau bendigedig ef dan i farnu ai brisio ef yn fuy na dim aral. A. Pa delu ceruchi ych cymydog megis chuich hunan. D. dan dymuno a guneuthur ido ef hyny a fynem i ni nyhun, yn ol rhessum, a chyfraith duu? A. Paham ydych yn doedyd, yn ol rhessum a chyfra ith duu? D. oblegid, os yn amgenach, ni fyde hyny eulysu ido ynda, ond eulysu yn drug ido megis i ni nyhunan.

Rhybyd.

Yma gelir damleuchu faint daioni a phruyth pphειthserch, a'r gradau syd ido. s. i buy y dylem dangos serch, a chariad chuaneg nog i erail. O'r peduared peth syd raid i Gristion urtho. s. o veithredoed da.

A. beth yu'r peduerydd syd raid i Gri-

ſtion urtho? D. gueithredoed da, achos uedi dyfod i oedran medru barnu, nid ydiu'r phyd digon heb ueithredoed da. A. Pa fath rai yu'r gueithredoed da? D. y rheini a ydis yn i guneuthur urth reſſum, ne o doedyd yn uel urth eulys duu, ag i fod onynt yn rhyglydus rhaid i guneuthur meun cariad perphaith. A. oni thal y rheini dim a uneler alan o gariad perphaith? D. na thalan, i heu du gras a gogoniant, ond nhuy a helpã i beri'r argluyd druydyn nhu roi i ni iechyd, a daioni bydaul ag in tyuſu ni i adnabod yn pechod, ag i gymeryd y difeiruch amdano. A. Pa ryu fath rai yu'r gueithredoed da. D. y rheini ſyd uedi goſod yngyrchmynau duu, ag yn y lail o'r eglus, yngueithredoed y drugareth a rhinuedau erail. A. Doeduch

deg

y deg gorchumyn: D. 1. Myfi yu dy arglwyd duu di, na fid gennyt duu aral garfymron i. 2 Na chymer enu duu yn ofer. 3 Delid yn dy gof ſanteidio'r guiliau. 4 Anrhydeda dad a man. 5 Na lad. 6 Na una odineb. 7 Na lydratta 8 Na chamdyſtlaetha. 9. 10 Na flyſia duy, ne vraig *dy cymydog nai vas, nai lau foruyn, nai ych, nai aſſen, na dim o'r eido ef.*

Doſparth ar y deg gorchymyn.

*A. ymhale yrhoesduu ydeg gorchumyn yma? D. yn gyntaf, yn y gyfraith hen, a chuedi hyny, Criſt yn harg.*N.*ai cadarnhadn huy yn y gyfraith neuyd. A.* PA *delu y rhennir huynt? D. y tri cyntaf ſy'n perthyn at vrduniad duu, a'r ſaith erail at les y cymydog. A. Pa delu mae'r tri yma yn perthynu at anrhy-*

ded

ded duu? D. am i fod ef yn eulyſu i ni uaſnaethu ef, yn gyntaf a'n calon uedi hyny a'n dafod, yn trydyd a'n gueithredoed. A. Pa fod i cadun ni y gorchumyn cyntaf? D. urth foliannu vn duu yn vnig, ai adoli, ai uaſneuthu, a'n hol galon, ag urth ydrach, ag ymaros cael honomi yn hol gyfared an gobruy gantho ef megis gen audr pob daioni. A. Puy ſyd yn pechu'n erbyn y gorchumyn yma? D. yrheini yn anuedig ſy'n guneuthur gauduuiæth, ofergoelion a pholineb erail o'r fath, ar y ſyd yn erbyn i orduniant ef. A. Pa fod y cadun ni'r ail? D. druy folianu, a diolch i duu a'n tafod, a gofyn gentho ef y pethau ſyd raid i ni urthunt. A. Puy ſy'n pechu yn erbyn y gorchumyn yma? D Yn gyntaf, yrheini ſyd yn blasphemio. ſ. yn dir-

mugu enu duu, ai ſaint. yn ail, yrheini ſy'n tyngu hyny nid ydiu vir, a chyſion ag angeheidiol; yn drydyd, yrheini nid ydynt yn cyflouni mo'r aduned a darfu idynt i guneuthur; ag erail nid ydynt yn rhoi parch deledus i enu duu. A. Paham y doeduch, guir, cyſion, ag anghenraid? D. am y dylai'r lu fod meun guirioned, fal na bydo phug, ne beth petrus: meun cyfiounder fal na bytho anghyfreithlon; meun anhepcaruch, fal y bydo peth anoſer: Onid ef yrydis yn pechu yn erbyn y gorchymyn hun A. *a uydoſti vn gyfared rhag tyngu mo'r ynudon? D. gun yn ſicr: bod heb dyngubyth. A. Padelo doeduchui urth ſynu guirhau rhyu beth? D. ie'ne nag e yn ſicyr, ne, yn vir, am nad ydiu hun lu, ne dyngiad: a hyny a fo dros ben i hyn muy*

nid

*nid yụ ḍa. Yma gelir eſortio yn er-
byn blaſphemau ag anudanau, a lyfo-
eḍ mynych arferedig ag i gadụ aḍūed
A. Paḍelu y cadụn ni y trydyḍ gorchy
myn, yr hụn yụ, ſanteidio'r gụiliau? D.
ụrth ḍangos a'r gụeithredoeḍ o ḍiaḷā,
y phyḍ, a'r cariad yr ydym i yn i dụyn yn
yn calon. A. ymha beth? D. nid ụrth la-
furio yn y dyḍ hụnụ ond ụrth vrando
ypheren gyfa, megis y mae'r eglụys
yn ordeinio trụy ḍyfoſion a dyfaluch,
dan beri i'r eiḍo ụrādo ypheren hefyd.
A. a pheth mụy? D. e ḍylyd hefyd treili
o'r dyḍ meụn pethau a fythont ụaſa-
neth i duụ, megis ag e mae, gụeḍio, a
darḷain lyfrau da, a gụneuthur gụeith
redoed y drugareḍ.*

E ſortiad i gadu'r guiliau, ag yn erbyn yrheini ſy'n i torri, ag yn i treilio me-un guethredoed drug, ag ofer.

A. Padelu i cadun ni y pedueryd gorchumyn yr hun ſyn erchi adoli tad, a mam. D. nyni a dylē, vfudhau idynt, i perchi, i guaſneuthu i cymhorth, ai helpu. A. beth os eirch yn tad ni, i ni uneuthur rhyu bechod ne doedyd rhyu gelu-yd, a fynechui vfydhau ido? D. na fyn-un, am nad yu ruymedig i vfudhau ydo, yn erbyn duu, ond yn y pethau ſyd gyfreithlon ag oneſt. A. Peſaul amryu dad ſyd? D. Paduar, yn gyntaf, y tad naturiol yr hun a'n ennilod ni, a hefyd yn teidiau ni a gyfrifir yn dadau yma: yr ail tad yu'r tad yſprydol, megis y ma e'r opheiriaid, prelatiaid, ag athrauō, yn drydyd, rheoluyr y ulad; yn bedue-

ryd, y'r henuyr er muyn i hoedran, ag ni a dylem anrhydedu paub yn ol i rad ai ſtad. A beth a dylai dadau da i une uthur i'r plant D. i dyſcu, ai rheoli huynt, ag na chosbant monynt yn anrhyſymol, na guneuthur yn rhy amuyl o honynt, ond pob vn o'r dau urth buyled a rheſſum. A. Padelu maei'r guas ymduyn tu ag at i feiſtr; a'r deiliur tu ag at i argluyd D. mal mab tu ag at i dad dan uneuthur ido omes megis i un yn le yn hargluyd ni A. a'r meiſtraid tu ag at i guaſnaethuyr? D. megis tadau urth i plant, megis urth frodyr yngriſt A. Padelu y cadun ni'r pumed gorchumyn? D. urth beidio ag euylyſu drug, nai uneuthur, i'r cymydog a challō, na thafod na gueithred dan duyn i'n cof, i fod ef ved'i uneu-

thur

*thur ar lun a delu ḍuụ. A. Paḍelụ ca-
dụn y chụeched? D. yn yr vnphunyd ụr-
th pho pob anoneſtrụyd, nid yn vnig ar
ụeiṭhroeḍ, ond hefyd, ar dafod, a chal
lō megis y ḍydis yn gorchymyn yn y na-
ụed. A. Para gyfareḍ aʻrferụn ni i aḷu
cadụʻr gorchymyn yma? D. ḷaụer, ond
ymyſc eraiḷ y pump yma, yn gyntaf, bod
yn rheolus ụrth fuyta, ag yfed, yn ail,
pho cyfeḍach a chymdeithas ḍrụg, y
trydyḍ gochel doedyd geiriau, ne ga-
niadau ſerth, nai gụrādo, yn gimaint
ag y galon ymochel: y peduẹryḍ, mynych
arferuʻr ſacrafenau ſanteiḍiaf y py-
med, gofyn pureiḍrụyd diụair gen y
ſanteidiaf forụyn fair, ar iḍi hi gael
gen ḍuụ i ganhiadu i ni. A. Paḍelụ y
cadụn ni y ſeithfed? D. ụrth na chyme
rom, ag na ḍaliom, ag na ụnelon niụed*

i da vn aral druy drais, ne druy somi-ant, nag urth roi na help, na chyngor, nag achos yn y byd i vn aral oi uneuthur. Yma y gelir anghori, na dalier, da o'r eido erail, ne gyflog, y cyflog dyn: a gochel fod yn chuarydion ag na unelir bargeinion anghyfreithlon e'r muyn ynil druy lygru'r gyduybod, ag fely dylid ymgynghori yn y pethau a fo petrus, ag nid mynd rhagdo megis dal; a hefyd i gyflouni eulys y maru yn i lythyr cymyn, cās urth dy fod ti yn mynd a da rhai erail guilia nad elo diaul a' th enaid tithe: a bod yn amynedgar meun tylodi a gobaithio yn nuu, y rhyd ef i ti y peth a fo rhaid i ti vrtho.

A. Padelu y cadun ni yr uythfed? D. *na doedom mor anuir, yn erbyn yn cymydog na furfurom, nag annirgelom be-*

chodau

chodau dirgel. O dieithr urth y neb y pyrthynai atto gueirio ag amendio'r camuedau hynny ne'r muyn rhyu daioni aral, ag achos cymhesur. heb farnu drug am yn cymydog, na doedyd celuyd amdano: Ond yn gynt doedyd yn da, megis y dymuniti i erail doedyd amdanat tithau.

A. *Padelu y cadun ni'r naued? D. urth na disyfon uraig vn aral, nag anonestruyd aral. ag am hyn y mae'n da cadu'r lygat rhag gueled ofered'a gochel pob achosian erail; cadu'r galon rhag medul drug, rhedeg at i uedi, i geisio help i urthlad a gorchfygu y profodigaethau. A. Padelu y cadun ni y degfed? D. urth na disyfon da, na dim aral eido'r cymydog, druy phord anghyfreithlon, tan fod heb cynfigen urtho*

am

am y da ſyd gentho. A. Ymbeſſaul vn y gelir cynnuys y deg gorchumyn yma yn dynt? D. yn nau orchumyn cariad perphaith. ſ. caru duu vuch ben pob peth, a'r cymydog megis ef i hunan, er cariad ar duu ag fely, mae'r hol gyfraith ued'i chynhuyſo yn y melysber orchymyn yma o gariad, yr hun a drefno yn hargluyd duu i ni truy i anherfynedig daioni Amen.

Ynhylch Gorchmynion yr egluys.

A. Douaid orchmynion yr egluys? D. y cyntaf gurando ypheren y guiliau gorchmynedig. 2 Umprydio'r grauys, ar dydiau erail gorchmynedig heb fuytta cig na guener na ſadurn. 3 Cypheſu, yrhynleia, vnuaith yn y fluydyn. 4. Cymuno, ar yrhynleia, y paſc. 5. Talu'r degum. A. ambara'choſion y mae'r egluys

gluys yn cadu guiliau'r ſaint? D. yn gyntaf, i ogoni duu yn i ſaint. yn ail, duyn ar dealt i ni y gogoniãt y mae nhuy yn i gael yn y nef, yn drydyd in denu ni oi canlyn huynt urth vybod i buched ai rhinuedau, yn beduery d, er muyn fely i cael nhuy yn gyfrynguyr troſon; yn bumed, e fyn yr egluys vrduno'r ſaint i phlant hi, megis y darfu idynhuythau vrdunio duu, ai mam. ſ. yr egluys.

A. Paham y mae'n arfer dedfau erail ag anrhyded amlygaul? D. er muyn muy o barch, a guedeidra ynguasãeth duu; drachefn i gyphro'r bobl i dyfoſion, ag oi diſgu druy'r pethau amlygaul hyny i gyfeirio i medul yn dyfal i, ſtyriau'r pethau ſyd odifeun yn ãueledigaul yn drydyd; am yn bod ni uedi cael gen duu gorph ag enaid ni a dylem

fely

fely i uasneuthu ef, a phob vn o'r dau. Yma gelir rhybudio, i bod yn rhuymedig oi cyphesu, pan delon i flynydoed dy screfion. s.i oedran galu barnu rhung drug a da: A chuedi hyny bara amser y dylent gymuno, a hyny yn anuedig o'r hyn leia vnuaith yn y fluydyn, er bod yn uel o lauer i uneuthur yn fynych. &c.

O'r saith brif bechod a eluir y saith bechod maruol.

A. E *darfu i ni doedyd o'r gueithredoed da, maneguch ynaur y saith bechod a eluir maruol D. y cyntaf yu* Balched *2 Cybyddra. 3 godineb. 4 Irloned. 5 Glothineb. 6 Cynfigen 7 Diogi yrhain syd achos, a phenau'r leil, ag am hyn y geluir huynt pēnaul, er galu honynt veithiæ fod yn fedeuaul. A. Pa beth yu pechod? D. Pechod yu'r peth ydis yn i*

dysyfu,

dyſyfu, yn i doedyd, ne yn i uneuthur yn erbyn cyfraith, ag eulys duu. A. P*a drug a vna'r pechod marual? D. ef a una goli duu, ai ras a'r gogoniant, a oedid ued i ado, ag a'n guna ni yn deleduyr i boenau tragudol yn vphern. A. Pa hā y geluir ef maruol? D. am i fod yn lad yr enaid, urth beri ido goli bouyd y gras. A. beth y mae'r pechod medeuaul yn i uneuthur? D. ni phair ef goli mo'r gras, na heudu vphern: ond ef a una oiri yngh ariad a guaſaneth duu ag a hauda boen tros amſer, a hefyd, y mae ef yn truyſio, ag yn goguydo dyn i ueuthur pechod maruol.*

Yma gelir traethu goerthrymbuys pechod, dan anghori paub i pho rhagdo. Ynghylch y ſaith ſacrafen o'r lā egluys.
A. Pa beth aral ſyd raid i uneuthur?

 D. rha-

D.rhaid i ni uybod y ſaith ſacraſen, ai cymeryd yn i hamſer, pan archo, a phā dangoſo yr egluys i ni, A.dyuaid ſacraſenau i ſantaid fam egluys. D. 1. Bedyd. 2. Cryſma ne fedyd eſcob, 3. ſagraſen yr alaur. 4. Penyd. 5. Oleu. 6. Vrde. 7. Priodas.

Dehengliad byrr ar y ſacraſenau.

A.beth a darfu i ni doedyd? D.y ſaith ſacraſen. A.Puy a ordiniod y ſacraſenau yma? D. Ieſu Griſt yn arglwyd N. A.i ba beth? D.i bardynu i ni yn pechodau, i gyfranu i ras a heudiāau i diodefaint ef, ag ymhob vn ydydis yn rhoi amryu ras neulduol: Ond mae'n rhaid i cymeryd huynt yn deilung. A.i ba beth y guſnaetha ſacraſen bedyd? D.i uneuthur dyn yn Griſtion ag yn fab i duu. A.Padelu y guneir hyn? D. am yn bod

ni yn

*ni yn geni meụn pechod dechreuaụl yr
hụn ydym yn i etifeḍio gen yn tadau
cyntaf. ag y ḍydis truy'r bedyḍ yn i ol-
chi ef, a phob pechod araḷ i phorḍ oḍi-
ụrthymi, ag yn rhoi gras a rhinụeḍau
eraiḷ: ag feḷ y ḍydis yn yngụneuthur ni
yn feibiō ag yn etifeḍion o'r bouyd tra
gụḍol A. i ba beth y gụſnaetha ſacra-
fen Cryſma yr hụn a elụir bedyḍ eſcob?
D. i gymeryd gras, a nerth a grymhu-
ſtra, yn erbyn yn gelyniō ni i gypheſſu'r
phyḍ a ḍarfu i ni i chael truy'r bedyḍ.
V i ba beth y guaſnaetha ſacrafen y
gyphes? D. i gael gē ḍuụ fedeuaint am
y pechodau a ụnaethon ụedi yn bedy-
ḍio. A. Paḍelụ y mae i vn ymbarotoi
ụrth fyned iụ gypheſſu? D. gụnaed dri
pheth, y cyntaf, duụn oi gof yn ḍyfal y
pechodau a ụnaeth, yr ail, bod gyntho*

 ḍolur,

dolur, ag ydifeiruch a launfryd na dy
mchuelo muy at y pechod, y trydyd, i cy
phesu nhuy i gyd yn gyfa, ag yna guneu
thur y penyd a roes i dad enaid arnof.
A. i ba beth y guasnaetha sacrafen y'r
allor? D. i roi maeth ag i borthi'r ena-
id einom a gras duu ag oi uneuthur
yn vn ag efo, yn ail, rhag syrthio yn ha
ud meun pechodau yn drydyd, er muyn
caphel pob perpheidruyd. A. beth syd yn
y santaid sacrafen o'r allor D. e mae
Iesu Grist yn arg. N. gorph ag enaid, fe
ly fal y mae yn y nef yn cystal yn yr af-
erladen ag yn y caregl, vedi i'r yphei-
riad gyssegru. A. a ydiu'r bara yn aros
yn yr aferladen a'r guin yn y caregl ve
di darfod i'r ypheiriad gyssegru? D.
nag ydynt o achos druy rinued a nerth
y geiriau y mae'r bara yn troi yn gor-
ph,

ph, a'r guin yn uaedyn barg. N. Iesu Grist, yr hyn a ydis yn i uneuthur yn yr ypheren. A. pa beth yu'r ypheren? D. yr ypheren syd cophaant a guir rypresenniad, o fouyd, diodefaint, a morfoleth yn barg. N. Iesu Grist, a chida hyny aberth urth ophrymu yr vn Crist dros y byu a'r maru ag fel y nyni a dylem sefyl oi gurando yn dyfal diesceulus ag yn dedfol. A. para fod y dylai vn i brypario i hyn fal y gale yn deilung gymeryd y santeidiaf sacrafen? D. myned yn dedfol heb fod i gyduybod iu gybudo o bechod maruol ai gyphesu o'r blaen. Yma gelir guneuthur esortiad i fynych arfer sacrafenau'r gyphes a'r cumyn. A. i ba beth y guasnaetha sacrafen yr oleu? D. i gael gras yr ysbryd glā ag i scubu ymaith uedilion y pechodau

oed

oed yn aros, ag i roi cyssur i'r enaid dā roi ido obaith a nerth i urthlad blinder sy'n dyfod truy i glefyd a'r cythrel. A. ag i ba beth hefyd? D. i gael iechyd y corph, pan uelo yn arglwyd ni i fod yn gymhesur. A. i ba beth y guasnaetha sacrafen yr vrde? D. i roi audurdod a gras i'r ypheiriad i gysegru'r santeidiaf sacrafen o'r allor, ag i rydhau odiurth bechodau, yr hun beth ni eil neb ond ypheiriad i unenthur. A. i ba beth y gusnatha'r sacrafen briodas? D. i gael o'r gur a'r uraig ras i fyu ynghyd, ag i feithrin i plant yn ogonedus i duu ag i amlhau'r bobl gristnogion fal y bo fyth rai i vasneuthu duu A. Padelu y dylai'r gur a'r vraig ymduyn ynghyd? D. y gur a dyle garu, āg ārhydedu i uraig, megis chuaer yngh-

rist,

riſt, ar ụraig berchi ag vfuḍhau oi gụr megis i vn yṇ ḷe Criſt : a phob vn o honynt iḷ dau ynghyd a ḍylent gaḍu heḍụch vnoldeb.phydloneḍ a chariad perphaith,megis y mae rhụng criſt a'r eglụys. A. Doeduch y pethau eraiḷ ſy'n perthynu at ụeithbredoeḍ da ne athraụaeth griſtionaiḍ? D. y tair rhinụeḍ theolygaụl,phyḍ,gobaith a chariad ꝑphaith; y pedair prif rīụed,pụyleḍ,grymhyſeḍ,cyfioneḍ,thymhereḍ. Saith roḍ yr ysbryd glan,rhoḍ o doethineb; o ḍeaḷt,o gyngor, o rymhyſeḍ, o ụybodeth, o hygareḍ,a rhoḍ o ofn duụ.

Yr ụyth deḍụḍụch.

Deḍụyḍ yụ'r tylodion o ysbryd, cans hụyntụy pie teyrnas nefoeḍ.

Deḍụyḍ yụ'r gụaredigion,cans ynhụy a fedianan y ḍaear.

Deḍụ-

Deduyd yu rheini sy'n alar cās ynhuy
a gan i cyſurio.

Deduyd yu'r rhein ſy arnynt neuyn a
ſyched cyfionder, cās nhuy a diuelir

Deduyd yur trugarogion, cans yntuy
a gan drugared.

Deduyd yu'rheini ſyd lan i calon, cans
ynhuy a gan ueled duu.

Deduyd yu'r hedychuyr, cans ; cant i
galu yn feibion i duu.

Deduyd yu'rheini ſy'n cael i hyrlid ai
blino er muyn cyfionder, canys
Ynhuy pie teyrnas nef.

Deudeg phruyth yr yſpryd glan.

Cariad perphaith. Lyuenyd. Heduch,
Godefed. Ymaroſruyd. Daioned. Cymu-
ynaſſed. Guared. Phyd. Moduſtra. Cy-
mgaduriaeth. Diueirdeb.

Y ſaith

Saith ueithred y drugared gorforaul.

Rhoi buyd i'r tlaud neunog. Rhoi diod i'r tylodion sychedig. Diladu'r noethion. Rhoi letty i,r pellennig. Ydrych cleifion. Gofuyau cyrchrorion. Cladu'r meiru.

Saith ueithred y drugared ysprydaul.

Rhoi cyngor da i erail. Cyfruydo'r anghyfaruyd. Rhybudio'r pechoduyr: cysurio'r neb syd meun blinder, a luded. Made'r cam a'r niued a gousom: Duyn yn diodefgar yr helbul y mae erail yn i vneuthur i ni: guedio duu dros y byu a'r meiru.

Pumtheg dirgeled yr arg. Iesu Grist oi mefyrio ag i doedyd lasuyr fair.

Y pump lauenchus a elir i myfyrio urth fyned dros y paderau y uaith gyntaf, 1. Cennaduriath yr angel, pan

eniluyd mab duu. 2. Gofuyad Elisabeth santes 3. Genedigeth yn harg. N. Iesu Grist. 4 Presenniad yn harg. N. yn y deml. 5. Pan gaed ef yn y deml ymysc yr athrauon.

Y pump dolurus oi' styriau urth synd eiluaith dros y paderau.

1 *Guedi'r argluyd yn yr ard. 2. i scyrsio urth y piler. 3. i goroniad a'r goron drain. 4. Dygiad y groes i fynyd calfario. 5. i groeshoelio ai angau ar y groes.*

Y pump gogonedus oi medul y dryded uaith yr eler dros y paderau.

1 *Cyfodiad yn hargluyd ni. 2. Idaruchafiad ef i'r nef. 3. Dyfodiad yr ysbryd glan. 4. Dyrchafiad yr argluydes fair. 5. Ichoroniad uuch ben yr hol angylion a'r dedudion o'r nef.*

Pan

Pan ganer y gloch afi, efa enilir me- dianau urth doedyd, ar y cāiad cyntaf Angelus domini nunciauit Mariæ, et concepit de ſpiritu ſancto. Aue maria &c.

Ar yr ail caniad.

Ecce ancilla domini, fiat mihi ſecun- dum verbū tuū. Aue Maria &c.

Ar y trydyd caniad.

Et verbum caro factum eſt, & habita uit in nobis. Aue Maria &c.

Moliant i duu, ag in hargluyd ni Ieſu Griſt: ag i'r ſanteidiaf foruyn Mair i fam ef. Amen.

FINIS.

Os chuenychai vn uybod, pa le yn yr atrauaeth griſtnogaul y mae ceiſio yſtr ne deſtyn i bregethu, a chyfleu pob pregeth yn i dyledus fan; e caiph gyfaruydid urth hyn ſyn canlyn a'r rhif a den gys y dolen.

Beiau urth brintio: a'r rhif cyntaf ynol pob bai, a dengys nifer y dolennau, le cair nhuy yndīt: yr ail: nifer y linoed.

Decreued tros *dechreued.* 1.5. *Criſtnoniog* tros *Criſtnogion.* 4 8.
Sythedig, tros *Sychedig.* 4.18. *Nefod* tros *nefoed.* 13.14. *Goerthrymbuys* tros *gorthrymbuys.* 49.16.

Mae yn aml o leoed, diphig title tan odref y tair lythyren yma: d, l, u, mal: aruydheir tros aruydheir. 8. 15. arglu yd tros argluyd. 13. 11. uedi tros uedi. 28. 13. meun, tros meun. 30. 13. ānu ylion, tros annuylion. 32. 14. erail, tros erail. Rhaid i'r darleyd yn y cyfryu leoed urth synuyr, ag ystyr yr ymadrod deualt ag adnobod, pa amser y dylai ditl fod tan bob vn o'rhain.

Geiriau a orfu i harfer yn y traethiad hunn, nid ydynt chuaith sathredig imisc y cyphredin o gymru.

Rhaglith, ne Ragluybr, introductio. Ansodfab, filius adoptiuus, ennaint vnguentum, einniau, vngo einniaug vnctus; Muynhau, frui: Galued, potētia, Canlau, aduocata: Guedi fyfyriaul, Oratio mentalis. lefaul ne laferaul

vedi

vedi, oratio vocalis Gauduuiath, Idolatria.

Ofergoel, superstitio, Cyfared, remedium. Guirhau, affirmare, aut verificare. Dedfau, ceremonia. Cyfrung, medium Cyfryngur, mediator aut intercessor. Dirgeled, mysterium. Annirgelu, reuelare. Murfuro murmurare. Puyled, prudētia. Hygared, pietas, Crysma, confirmatio. Rhinued theolygaul, virtus theologalis. Tymhered, temperantia. Grymhyssed, fortitudo Guaredig, mitis. Godefed, patientia. Ymarossuyd, longanimitas. Cymuynassed, benignitas Guared, mansuetudo. Cymgaduriath, ne ymattaliath, continentia, aut abstinentia. sagrafen, sacramentum.

Ymylen. 1568. dyuguyl.
S. Nicolas.

[illegible]